Cyfarfod Grŵp Llywio Aelodau Prosiect Gwyrdd DYDD LLUN 16 MAWRTH 2009 4:30PM	
Tŷ Penallta, Tredomen	
Yn Bresennol:	**Llythrennau**
Aelodau Etholedig:	
Y Cynghorydd Colin Mann, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cadeirydd)	CM
Y Cynghorydd Miss Lyn Ackerman, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	LA
Y Cynghorydd Margaret Jones, Cyngor Sir Caerdydd	M.J
Y Cynghorydd Mark Stephens, Cyngor Sir Caerdydd	MS
Y Cynghorydd David Atwell, Cyngor Dinas Casnewydd	DA
Y Cynghorydd Eric Saxon, Cyngor Sir Fynwy	ES
Y Cynghorydd Geoff Cox, Cyngor Bro Morgannwg	GC
Y Cynghorydd Gordon Kemp, Cyngor Bro Morgannwg	GK
Swyddogion:	
Mark Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	MW
Hrjinder Singh, Cyngor Sir Caerdydd (Swyddog Cyllid Arweiniol)	HS
Steven Phillips, Cyngor Sir Caerdydd	MS
Marcia Sinfield, Cyngor Sir Caerdydd	EW
Elizabeth Weale, Cyngor Sir Caerdydd (Swyddog Arweiniol Cyfreithiol)	SP
Ian Lloyd Davies, Cyngor Sir Caerdydd (Swyddog Arweiniol Cyfathrebu)	ILD
Stephen Davison, Cyngor Dinas Casnewydd	SD
Dave Harris, Cyngor Sir Fynwy	DH
Clifford Parish, Cyngor Bro Morgannwg	CP
Tara King, Rheolwr Prosiectau	TK
Ymddiheuriadau:	
Y Cynghorydd David Fouweather, Cyngor Dinas Casnewydd	
Y Cynghorydd Peter Fox, Cyngor Sir Fynwy	

Rhif	Eitem	Cam Gweithredu
1.	**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**	
9/09	Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2008.	Nodwyd
2.	**Materion yn Codi**	
10/09	O ganlyniad i'r cofnodion ailadroddwyd y gofyniad i bwysleisio fod y caffael yn niwtral o ran technoleg ac na fydd technoleg cyfeirio OBC yn rhagnodi'r canlyniad terfynol.	Nodwyd
3.	**Adroddiad Rheolwyr Prosiectau – TK**	
11/09	Rhoddodd TK y diweddaraf ar dargedau LICC a phapur cyfarwyddiadau 2 y dyfodol sydd angen eu hystyried yn y gwiriad Iechyd Cyllidol a Thechnegol. Nodwyd Drafft Terfynol OBC (sydd wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor gan yr holl awdurdodau sy'n aelod) a fydd yn parhau i gael ei adolygu a'i ddatblygu wrth i'r prosiect symud ymlaen i'r camau caffael ar gyfer Achos Busnes Terfynol. Yna cyfeiriodd TK at y newidiadau economaidd a fyddai angen eu hystyried a chadarnhawyd y byddai angen drafftio a chytuno ar benawdau'r telerau ar gyfer yr opsiynau safleoedd gyda'r Cyngor perthnasol cyn symud ymlaen i'r cam caffael. Rhagwelwyd y byddai'r rhain yn cael eu drafftio erbyn diwedd y mis. Mynegwyd pryderon nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi derbyn hysbysiad ffurfiol eto ar amodau a thelerau'r trefniadau cyllid a'r fformwla cyllid a bod yr oedi yn effeithio ar yr amserlen. O ganlyniad, cytunwyd y byddai llythyr yn cael ei anfon at y Cadeirydd ar ran y Grŵp yn gofyn cadarnhau'r ymrwymiad yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl. Ymatebodd TK i nifer o gwestiynau a godwyd yn ystod y cyflwyniad a'r cwrs o ddilyn trafodaeth gan gyfeirio'n benodol at yr opsiwn safle rheoledig cyhoeddus enwebedig a drafodir, proses llwybr penderfynu caffael, a phroses rheoli cyllidol y broses gan y Cynghorau perthnasol.	Nodwyd Cytunwyd
4.	**Cynnwys yr Ail Adroddiad**	
12/09	Yna rhoddodd TK y diweddaraf ar yr ail o'r adroddiadau cyffredin a drafodwyd yn fanwl yn y cyfarfod blaenorol ac adroddwyd y byddai hyn yn cael ei gyfeirio at y Cyngor perthnasol yn y lle cyntaf cyn ei gyflwyno i awdurdodau eraill. Yn y cysylltiad hwn, atgoffwyd aelodau o'r amserlen amlinellol ddangosol, prif egwyddorion y fanyleb allgynnyrch, yr amlen fforddiadwyedd a'r broses llywodraethu a chaffael a fanylir ynddo. Yna cyfeiriodd TK yn benodol at y broses caffael dialog cystadleuol, yr amserlen camau, y fframwaith gwerthuso drafft, darpariaeth dechnegol a gwasanaeth a'r trefniadau cyfreithiol a	Nodwyd

	chytundebol. Rhoddodd HS drosolwg o'r goblygiadau cyllidol gan bwysleisio adolygiadau parhaus yr OBC i asesu perthnasedd a chadernid y prif dybiaethau yn rheolaidd fel y gellir adolygu'r prif dybiaethau technegol a chyllidol a'r materion fforddiadwyedd o ganlyniad yn ôl yr angen. Yna rhoddodd EW y diweddaraf ar y Cytundeb Cydweithio gan gyfeirio'n benodol at rôl yr Awdurdod Arweiniol a strwythur arfaethedig y trefniadau llywodraethu ar sail Cyd Bwyllgor gydag Awdurdod Arweiniol. Rhoddodd EW fanylion y cylch gorchwyl arfaethedig a'i swyddogaeth ar ran yr awdurdodau sy'n aelod gan nodi'r angen i ddeall y canlyniadau. Atebodd TK, HS ac EW i nifer o gwestiynau a godwyd yn ystod y cyflwyniad a chwrs y drafodaeth.	Nodwyd Nodwyd Nodwyd
5.	**Opsiynau Aelodau**	
13/09	Yn gysylltiedig â'r ymweliadau safle arfaethedig cytunwyd y dylid gwneud trefniadau i ymweld â dau safle yn y gogledd ar y dyddiadau a nodir cyn bo hir. TK i adolygu'r trefniadau posibl. Adroddwyd yn gysylltiedig ag ymrwymiadau dyddiadur nad oedd yn bosibl trefnu'r cyfarfod arfaethedig ag Aelodau Cabinet/Gweithredol pob awdurdod er mwyn rhoi'r diweddaraf ar gynnydd y prosiect. O ganlyniad cyfeiriodd SP at gyfarfod Bwrdd Cysylltu De Ddwyrain Cymru a drefnwyd ar gyfer 9 Ebrill a'r cynigion i gwrdd â Phrif Weithredwyr ac Aelodau sy'n bresennol cyn y cyfarfod.	Cytunwyd Nodwyd SP
6.	**Sesiwn Cwestiwn ac Ateb**	
14/09	Ni chodwyd unrhyw gwestiynau nad oedd wedi cael eu trafod eisoes yn ystod cwrs y cyfarfod.	Nodwyd
7.	**Unrhyw Fater Arall**	
15/09	Ni chodwyd unrhyw faterion dan unrhyw fusnes arall	
8.	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**	
16/09	Yn unol â'r cynnydd a wnaed, byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 20 Ebrill 2009 yn Nhŷ Penallta	Nodwyd